

Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

Cefndir i Bropaganda'r Natsïaid

1919 - Cytundeb Versailles.

- Arweiniodd y dinistr torfol a'r marwolaethau a achoswyd gan y Rhyfel Byd Cyntaf (1914-1918) at gyfnod newydd o ansefydlogrwydd. Yn yr Almaen, cafodd pobl o bob tueddiad gwleidyddol eu trawmateiddio gan ryfel, methiant cywilyddus y genedl a thelerau llym y setliad heddwch. Roedd Cytundeb Versailles 1919 yn dal yr Almaen yn gyfrifol am ddechrau'r rhyfel. Daeth yr Almaen yn atebol am gost iawndal materol enfawr a wynebodd argyfwng economaidd a gwleidyddol difrifol. Yn sgil yr ansefydlogrwydd hwn, daeth mudiadau eithafol, megis y Blaid Natsïaidd i'r amlwg.

Gwrthsemitiaeth.

Ystyr y gair gwrth-semitiaeth yw rhagfarn neu gasineb tuag at Iddewon.

- Mae casineb gwrth-Iddewig yn dyddio'n ôl i'r hen amser ac mae iddo amrywiaeth o achosion. Yn yr Oesoedd Canol a'r cyfnod modern cynnar, arweiniodd gelyniaeth grefyddol tuag at Iddewon Ewrop at ddeddfwriaeth wrth-Iddewig, diarddeliadau, a thrais. Mewn llawer o Ewrop, roedd polisïau llywodraeth, arferion a chyfreithiau yn gwahanu Iddewon oddi wrth weddill y boblogaeth, yn eu darostwng i swyddi penodol ac yn eu gwahardd rhag bod yn berchen ar dir. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, codwyd llawer o'r cyfyngiadau hyn trwy ryddfrenio gwleidyddol.
- Adeiladodd y Natsïaid ar ganrifoedd o deimlad gwrth-Iddewig. Roeddent yn gweld yr Iddewon fel 'hil' ar wahân a pheryglus na ellid byth ei chymathu i gymdeithas Ewropeaidd.
- Yr Holocaust, erledigaeth a llofruddiaeth Iddewon Ewropeaidd wedi'i noddi gan y wladwriaeth gan yr Almaen Natsïaidd a'i chydweithredwyr rhwng 1933 a 1945, yw enghraifft fwyaf eithafol hanes o wrth-semitiaeth.

Delfryd y Natsïaid o 'gymuned genedlaethol' Almaenig.

Roedd y Natsïaid eisiau llunio 'cymuned genedlaethol' Almaenig yn unol â'u delfrydau hiliol. Roedd hyn yn golygu breintio 'Ariaidd' ac erlid hiliau israddol, fel y'u gelwir, fel Iddewon. Ym mis Chwefror 1920, cyflwynodd Hitler Raglen 25 pwynt i gyfarfod Natsïaidd, a oedd yn datgan y bwriad i wahanu Iddewon oddi wrth gymdeithas 'Ariaidd' a dirymu hawliau gwleidyddol, cyfreithiol a sifil yr Iddewon. Roedd pwynt 4 y rhaglen, er enghraifft, yn nodi:

"Dim ond cymrawd cenedlaethol all fod yn ddinesydd. Dim ond rhywun o waed yr Almaen, waeth beth fo'i ffydd, all fod yn ddinesydd. Felly, ni all unrhyw Iddew fod yn ddinesydd."



Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

Cefndir i Bropaganda'r Natsïaid

1938 - crynodeb o ddigwyddiadau hanesyddol

Yr Almaen yn cyfeddiannu Awstria - Aeth milwyr yr Almaen i mewn i Awstria ar 12 Mawrth, 1938. Y diwrnod wedyn, cyfeddiannwyd y wlad yn swyddogol gan yr Almaen ac ymgorffori Awstria yn y Drydedd Reich. Yr *Anschluss* yw enw'r digwyddiad hwn.

Cynhadledd Evian ar ffoaduriaid – Dechreuodd cyfeddiannaeth yr Almaen o Awstria argyfwng ffoaduriaid. Gwnaeth degau o filoedd o Iddewon yr Almaen ac Awstria gais i fewnfudo i wledydd y tu allan i Ewrop. Cyfarfu diplomyddion a chynrychiolwyr o 32 o wledydd yn Evian-les-Bains, Ffrainc, ym mis Gorffennaf 1938, i drafod yr argyfwng ffoaduriaid. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr fod eu gwlad yn cydymdeimlo ond na fyddent yn derbyn mwy o ffoaduriaid. Honnodd rhai y byddai cynnydd mewn fewnfudo yn niweidio eu heconomi, tra dywedodd eraill nad oeddent eisiau Iddewon.

Cyfreithiau Gwrth-Iddewig y Natsïaid – er enghraifft:

- Gwahardd Iddewon rhag bod yn berchen ar fusnesau.
- Diarddel pob plentyn Iddewig o'r ysgol.
- Tynnu trwyddedau gyrru oddi ar Iddewon.
- Gwahardd Iddewon rhag mynychu'r theatr neu'r sinema.
- Gwahardd Iddewon o bob prifysgol.
- Gwahardd Iddewon rhag mynychu cyfleusterau chwaraeon.
- Gwahardd Iddewon rhag mynd i barthau 'Ariaidd' a oedd wedi'u sefydlu mewn llawer o ddinasoedd.

Kristallnacht - Ar 9-10 Tachwedd 1938, dechreuodd arweinwyr y Natsïaid gyfres o bogromau treisgar (neu derfysgoedd) yn erbyn y boblogaeth Iddewig yn yr Almaen a thiriogaethau a ymgorfforwyd yn ddiweddar. Daeth y digwyddiad hwn i gael ei adnabod fel *Kristallnacht* (Noson y Gwydr Toredig) oherwydd y gwydr drylliedig a oedd yn wasgaredig ar y strydoedd ar ôl fandaliaeth a dinistr busnesau, synagogau a chartrefi oedd yn eiddo i Iddewon. Arestiwyd tua 30,000 o ddynion a bechgyn Iddewig a'u hanfon i wersylloedd crynhoi. Cafodd ychydig llai na 100 o bobl Iddewig eu llofruddio yn ystod y pogrom.

Kindertransport (Cludiant Plant) – Dyma oedd enw anffurfiol cyfres o ymdrechion achub rhwng 1938 a 1940 a ddaeth â phlant Iddewig o diriogaethau a oedd dan reolaeth y Natsïaid i ddiogelwch. Anfonodd rhieni Iddewig eu plant ar gludiant wedi'i drefnu i fyw mewn cartrefi plant, gyda theuluoedd maeth, neu gyda

Gweithgaredd 6: Rhagfarn a Phropaganda

Cefndir i Bropaganda'r Natsïaid

Ffynonellau

United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopaedia: What conditions, ideologies, and ideas made the Holocaust possible?* <<https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/question/what-conditions-and-ideas-made-the-holocaust-possible>> [cyrchwyd 10 Ebrill 2022]

United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopaedia: Antisemitism* <<https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/antisemitism>> [cyrchwyd 10 Ebrill 2022]

United States Holocaust Memorial Museum, *Holocaust Encyclopaedia: Antisemitic Legislation 1933–1939* <<https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/antisemitic-legislation-1933-1939>> [cyrchwyd 10 Ebrill 2022]

United States Holocaust Memorial Museum, *Learn: Timeline of Events* <<https://www.ushmm.org/learn/timeline-of-events/before-1933>> [cyrchwyd 10 Ebrill 2022]

